

Beth ydym ni'n ei wneud?

- Rydym ni yma i wrando, i weddio gyda chi, i drafod materion bywyd a ffydd gyda chi. Mae rhai ohonom yn cynnig arweiniad ysbrydol neu fentora.
- Os oes gennych gwestiynau am faterion yn ymwneud â ffydd, fe wnawn ein gorau i'ch helpu i ganfod ateb iddynt.
- Os ydych yn mynd trwy gyfnod anodd, rydym yno os oes arnoch angen rhywun i fod yn gefn i chi.
- Rydym yno i helpu a chynghori'r Brifysgol ar faterion yn ymwneud â ffydd.
- Rydym yn trefnu (neu helpu i drefnu) nifer o ddigwyddiadau yng nghalendr y brifysgol.
- Mae aelodau'r tîm hefyd yn chwarae rhan flaenllaw mewn datblygu a chefnogi cymuned ffydd o fewn ein traddodiad ein hunain.
- Rydym yn cydweithio â grwpiau ffydd eraill yn yr ardal leol.
- Rydyn ni yma ar gyfer y myfyrwyr a'r staff i gyd p'un a oes ganddynt ffydd ai peidio.

Pethau nad ydym yn eu gwneud!

- Rydym yn anfeirniadol yn ein ffordd o weithredu - tuag at y sefydliad a thuag at unigolion.
- Nid ydym yn cenhadu - er ein bod yma i hwyluso twf ysbrydol a chyd-deithio â chi ar eich taith ffydd, ni fyddwn yn ceisio eich troi at unrhyw grefydd.

Dewch i gwrdd â'r tîm

Mr Ray Bayliss OP

(Caplan Catholig a Chydlynnydd Tîm y Gaplaniaeth)

Dominiciad Lleyg yw Ray a chyn dod i Fangor yn Awst 2016 bu'n gaplan yn Keele am 12 mlynedd. Mae'n byw gyda'i wraig, Allison, yn y Caplandy Catholig. Catholic Chaplaincy, Ty Acwin, College Road, **LL57 2DB**
catholic.chaplain@bangor.ac.uk



Y Parch Dafydd Job

(Caplan Efengylaidd Cymraeg)
Daeth Dafydd i Fangor yn 1985 ar ôl astudio yma yn ystod y 1970au. Mae'n weinidog yr Eglwys Efengylaidd

Gymraeg sy'n cyfarfod yng Nghapel y Ffynnon.

LL57 2PR

dafyddmj@gmail.com

Dr Sibani Roy

(Caplan Hindwaidd)

Mae Sibani yn Hindw sy'n ymarfer y grefydd ac yn aelod gweithredol o Gyngor Hindwiaid Cymru. Mae hefyd yn aelod gweithredol o'r grŵp rhyng-ffydd (Tangnefedd) yn Wrecsam sy'n hyrwyddo gweithgareddau rhyng-ffydd yn y DU. Astudiodd Sibani ym Mhrifysgol Bangor ar ddiwedd y 1990au.

doctorroy@btinternet.com



Y Tra Pharchedig Archimandriad Tad Deiniol

(Caplan yr Eglwys Uniongred)

Mae'r Tad Deiniol, offeiriad a mynach yn Eglwys Uniongred y Dwyrain (Patriarchaeth Eciwmenaidd), yn byw ym Mlaenau Ffestiniog ac mae'n Weinyddwr Cenhadaeth Uniongred Cymru. Cafodd ei ordeinio gan y diweddar Archesgob Anthony (Bloom) o Sourozh - esgob Uniongred Rwsiaidd.

tad@deiniol.cymru

Y Canon Nathan Jarvis

(Caplan Anglicanaidd)

Cyrrhaeddodd Nathan ym Mangor yn 2018. Mae Nathan wedi'i leoli yn y Gadeirlan ac yn y Brifysgol, ac mae'n byw yn y ddinas.

anglicanchaplain@esgobaethbangor.net



Yr Athro Nathan Abrams

(Cynghorwr Iddewig)

Daw Nathan o Lundain yn wreiddiol ac mae wedi bod yn darlithio ym Mangor ar astudiaethau ffilm ers 2006.

Helpodd i sefydlu Rhwydwaith Iddewig Gogledd Cymru. Mae'n byw ym Mangor.

n.abrams@bangor.ac.uk

Pati Bielak-Smith

(Caplan Bwdhaidd)

Mae Pati yn gysylltiedig â'r feudwyfa Fwdhaidd ger Cricieth. Ynghyd â'i gŵr mae hi'n cynnal dosbarthiadau myfyrio rheolaidd ar-lein ac wyneb yn wyneb fel rhan o weithgareddau Awakened Heart Sangha (AHS). Mae hi hefyd ar gael am arweiniad ysbrydol a chyfarwyddiadau ar fyfyrion ym Mhrifysgol Bangor.

bielaksmith@gmail.com



Ayad Abdulmawla

(Caplan Mwslimaidd)

Daeth Ayad i Fangor ym 1986 ac mae'n Imam a Khateeb yng Nghanolfan Islamaidd Bangor, 61 Stryd

Fawr, **LL57 1NR**

ayad@nwis.org.uk

John Hughes

(Caplan Methodistaidd)

Bu John yn gwasanaethu fel gweinidog methodistaidd yn Bridlington am bum mlynedd cyn dychwelyd adref i ogledd Cymru ym mis Medi 2019 fel gweinidog uwcharolygol y Bangor & Holyhead Methodist Circuit. Mae John yn siaradwr Cymraeg ac mae wedi ei leoli yn St John's Methodist Church, Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR.

john.hughes@methodist.org.uk

